

SYLWI, GWIRO, RHANNU

Canllawiau i weithwyr proffesiynol

Mae 'Sylwi, gwiro, rhannu' yn ganllawiau sydd wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn sectorau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd Prevent, fel iechyd, addysg ac awdurdodau lleol. Dylai gweithwyr proffesiynol ddilyn hyn os oes ganddynt bryder bod rhywun mewn perygl o gael ei radicaleiddio i derfysgaeth.

Radicaleiddio yw'r broses lle mae person yn **cyfreithloni cefnogaeth i, neu ddefnydd o, drais terfysgol**.

Gellir dod o hyd i ganllawiau statudol llawn yng [nghanllawiau dyletswydd Prevent](#) neu [ganllawiau dyletswydd Prevent ar gyfer yr Alban](#).

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn sectorau dyletswydd Prevent. Os ydych chi'n aelod o'r cyhoedd ac yn pryderu bod rhywun yn cael ei radicaleiddio i derfysgaeth, dylech chi ymweld ag [ACT Early](#) lle gallwch chi ddod o hyd i gymorth a gwneud atgyfeiriad.

Sylwi

Yn aml, gweithwyr proffesiynol rheng flaen (fel y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd neu addysg) fydd y cyntaf i sylwi os yw rhywun yn arddangos ymddygiadau a allai ddangos arwyddion o gael ei radicaleiddio. Os byddwch chi'n sylwi ar ymddygiadau sy'n peri pryder, dylech chi ystyried a yw'r person mewn perygl o gymryd rhan mewn, neu gefnogi, terfysgaeth.

Mae pob achos yn unigryw a dylid ystyried amrywiaeth o ffactorau i ffurfio dealltwriaeth gliriach. Gall ffactorau perthnasol gynnwys:

- Mynegi barn eithafol treisgar sy'n niweidiol i eraill, er enghraifft iaith 'ni yn erbyn nhw'.
- Diddordeb mewn neu ymwneud â grwpiau neu achosion eithafol treisgar.
- Gogoneddu, cefnogi neu gyfiawnhau defnyddio trais am resymau gwleidyddol, crefyddol, hiliol neu ideolegol.
- Defnyddio symbolaeth sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth dreisgar.
- Cyrchu deunyddiau eithafol treisgar neu eu rhannu.
- Diddordeb mewn trais eithafol neu ymosodiadau torfol, er enghraifft lladdfeydd cyhoeddus.
- Er bod ideoleg yn ystyriaeth bwysig, nid yw ideoleg glir adnabyddadwy yn orfodol i wneud atgyfeiriad Prevent.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ond mae'n darparu enghreifftiau o rai ymddygiadau a allai ddangos bod person mewn perygl o radicaleiddio i derfysgaeth. Mae rhestr fwy cynhwysfawr o ffactorau i'w hystyried ar gael yn y [ffurflen atgyfeirio genedlaethol \(NRF\)](#) a [hyfforddiant Dyletswydd Prevent](#).

Gallai fod llawer o resymau dros yr ymddygiadau hyn heblaw am radicaleiddio, ac nid yw ymddygiadau o'r fath ar eu pen eu hunain o reidrwydd yn dangos bod angen atgyfeiriad Prevent ar rywun. Mae'n bwysig deall y cyd-destun cyn dod i unrhyw gasgliadau ynghylch a yw'r unigolyn mewn perygl o gael ei radicaleiddio i derfysgaeth.

Yn ogystal, gallai unigolyn fod â gwendidau a allai fod yn berthnasol neu beidio i'w dueddiad i radicaleiddio. Er enghraifft, dylid ystyried gwendidau fel afiechyd meddwl neu brofiadau niweidiol yn ystod plentynodod fel ffactorau cyd-destunol. Gall ffactorau cyd-destunol hefyd gynnwys agweddau ar gefndir person fel niwroamrywiaeth, a all - neu beidio - effeithio ar dueddiad person i radicaleiddio. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw pryderon bod rhywun mewn perygl o gael ei radicaleiddio yn cael eu diystyru na'u priodoli'n unig i wendidau presennol.

Gwirio

Dylech wirio eich pryder cyn gwneud atgyfeiriad Prevent, er mwyn sicrhau eich bod wedi casglu'r wybodaeth berthnasol sydd ar gael i chi a bod y pryder yn berthnasol i Prevent. Ni ddisgwylir i chi asesu risg radicaleiddio unigolyn, ond dylech wirio eich pryderon trwy wneud y canlynol:

- Siarad â pherson sy'n gyfrifol am ddiogelu o fewn eich sefydliad (megis yr arweinydd diogelu dynodedig neu'r arweinydd Prevent).
- Siarad â chydweithwyr sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r unigolyn, gan y gallent ddarparu cyd-destun pellach ac efallai eu bod wedi sylwi ar rywbeth tebyg.
- Dylech chi neu rywun sy'n gyfrifol am Prevent/diogelu o fewn eich sefydliad ystyried siarad â'r unigolyn dan sylw (neu oedolyn priodol), lle bo'n briodol ac yn ddiogel gwneud hynny, oni bai y byddai hyn yn peryglu unrhyw un neu'n tanseilio unrhyw ymholiad. Pwrpas unrhyw sgysiau ddylai fod meithrin dealltwriaeth o'u hymddygiad a'u hamgylchiadau, yn hytrach na gofyn yn uniongyrchol i'r person a ydynt yn credu eu bod yn cael eu radicaleiddio neu eu hysbysu y gallai atgyfeiriad Prevent gael ei wneud.
- Defnyddio eich barn broffesiynol a'r canllawiau Prevent sydd ar gael (megis [Egwyddorion Allweddol Prevent](#) a [hyfforddiant](#)) i 'wirio' eich pryderon bod yr unigolyn mewn perygl o gymryd rhan mewn terfysgaeth, neu ei chefnogi. Fel unrhyw fecanwaith diogelu, mae'n llawer gwell derbyn atgyfeiriadau sy'n troi allan i beidio â bod yn destun pryder na cholli rhywun sydd wir angen cymorth.
- Os, yn dilyn gwiriadau, nad oes pryderon bod unigolyn mewn perygl o gael ei radicaleiddio i derfysgaeth, yna mae'n debygol nad yw'r unigolyn yn addas ar gyfer cymorth Prevent. **Yn gyffredinol, nid yw Prevent ar gyfer pryderon sy'n canolbwyntio'n unig** ar droseddau cyllyll, trais, ymwneud â gangiau, cam-drin domestig, neu ddiddordeb cyfreithlon/academaidd mewn themâu fel rhyfel, milwrol, neu arfau **oni bai** bod amgylchiadau penodol yn golygu bod pryderon yn gysylltiedig â risg y bydd rhywun yn ymwneud â therfysgaeth, neu'n ei chefnogi. Lle mae pryderon eraill yn parhau, fel risg o niwed neu droseddu treisgar, yna dylid ceisio cymorth amgen fel trefniadau diogelu lleol.

Os oes angen rhagor o arweiniad arnoch ar Prevent, radicaleiddio, ideoleg benodol neu'r risg leol, gallwch gyfeirio at yr hyfforddiant Dyletswydd Prevent neu arweinydd Prevent eich awdurdod lleol, a all roi cyngor cyffredinol mewn perthynas ag Prevent. Fodd bynnag, gan na fydd ganddynt fynediad at yr holl wybodaeth berthnasol ar y cam hwn o'r broses, ni allant benderfynu a ddylid gwneud yr atgyfeiriad ai peidio.

Rhannu

Os ydych chi'n credu bod rhywun mewn perygl o ymwneud â therfysgaeth, neu o'i chefnogi, yna mae'n hanfodol eich bod chi'n casglu'r wybodaeth berthnasol sydd ar gael i chi ac yn rhannu'r pryder trwy wneud atgyfeiriad i'r heddlu. Nid yw Prevent yn sancsiwn troseddol a gall gwneud atgyfeiriad roi cyfle i ddargyfeirio'r unigolyn oddi wrth derfysgaeth.

Dylech ddefnyddio'r NRF i helpu i nodi'r rhesymeg dros eich pryder. Dylai'r [NRF](#) fod ar gael ar wefan eich awdurdod lleol neu drwy arweinydd Prevent eich awdurdod lleol. Yng Nghymru, mae'r ffurflen atgyfeirio genedlaethol ar gael [yma](#). Yn yr Alban, gallwch gael y ffurflen gan Heddlu'r Alban.

Er mwyn sicrhau nad yw manylion allweddol yn cael eu colli, mae'n fwyaf effeithiol i'r person a sylwodd ar y pryder gwblhau'r NRF, ond gallant wneud hynny gyda chymorth arweinydd diogelu sefydliadol neu gyfwerth. Mae'n debygol y bydd yr heddlu'n cysylltu â chi i ofyn am wybodaeth ychwanegol i gefnogi eu hasesiad. Efallai y gofynnir i chi hefyd fynychu panel Channel amlasiantaeth i helpu i asesu risg a datblygu cynllun cymorth ar gyfer yr unigolyn.

Gall Prevent redeg ochr yn ochr â phrosesau diogelu eraill ac ategu'r rhain. Os yw mecanweithiau cymorth neu ddiogelu eraill hefyd yn cael eu hystyried, dylai'r rhain fynd rhagddynt oni bai fod rheswm i beidio â gwneud hynny. Dylid rhannu unrhyw bryderon diogelu uniongyrchol eraill gyda'r cyrff priodol. Os oes risg uniongyrchol o niwed neu berygl i fywyd, ffoniwch 999.

Dylech sicrhau bod trefniadau cadw cofnodion ar gyfer atgyfeiriadau Prevent yn gymesur ac yn briodol, gan fod yn ymwybodol hefyd o ofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data a pholisi cadw data mewnol eich sefydliad. Gallai trefniadau cadw cofnodion hefyd gynnwys yr ystyriaethau a'r wybodaeth a ystyrir lle gwneir penderfyniad i beidio ag atgyfeirio at Prevent, neu lle asesir bod gwasanaeth arall yn fwy priodol i reoli'r pryder.

Mae rhagor o wybodaeth am Prevent ar gael yn [Cael cymorth ar gyfer pryderon radicaleiddio - GOV.UK](#).